Profwch Harddwch Canolbarth Cymru

Ymddiriedolaeth Hosteli Unigeddau'r Elenydd

Mae hosteli'r Elenydd wedi cael eu gwerthfawrogi ers blynyddoedd fel hosteli cyfeillgar a syml mewn mangreoedd syfrdanol o hardd. Pan ddwedodd y YHA yn 2006 ei bod yn bwriadu gwerthu'r tri hostel, cydweithiodd wardeniaid gwirfoddol, hostelwyr a phobl leol i sefydlu Ymddiriedolaeth Hosteli Unigeddau'r Elenydd. Ers mis Ionawr 2007 rydym wedi bod yn rhedeg Ty'n Cornel gan ei brydlesu gan ei berchnogion newydd ac, ar ôl ymgyrch llwyddiannus i godi arian, prynon ni hostel Dolgoch gan y YHA ym mis Tachwedd 2007.

Hoffem adeiladu ar lwyddiant ein blwyddyn gyntaf gan alluogi mwy o bobl i brofi hud yr Elenydd a hanes a diwylliant cyfoethog yr ardal arbennig hon. Mae'r Ymddiriedolaeth a'r hosteli yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig ac rydym wastad yn falch pan fydd rhywun yn cynnig helpu. Gallwch gefnogi'r hosteli hyn a gwaith yr Ymddiriedolaeth trwy ddod yn aelod neu drwy rodd. Ceir ffurflenni ar ein gwefan, yn yr hosteli neu o'r cyfeiriad drosodd.

Hosteli Unigeddau'r Elenydd
Cyfeiriad cofrestredig: 7 Azelea Close,
Cyncoed, Caerdydd, CF23 7HR
02920 732289
chair@elenydd-hostels.co.uk
www.elenydd-hostels.co.uk

Rhif Cofrestru Comisiwn yr Elusennau: 1115946

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Cynllun gan zodshop | Cynllunio cyfeillgar i'r amgylchedd
Ynni adnewyddadwy yn y stiwdio | 01239 711638
www.zodshopdesign.co.uk

DEWCH I

DDARGANFOD UNIGEDDAU CYMRU

LLETY SYML YNG NGHALON Y CANOLBARTH

Ty'n Cornel

Dolgoch



Ty'n Cornel

Llanddewi Brefi
Ceredigion, SY25 6PH
Cyfeirnod Grid OS: SN 751 535
Signal ffonau symudol filltir i ffwrdd (dim ffôn).

16 lle mewn **8** gwely bwnc mewn 2 ystafell

Mae mewn lleoliad hardd dros ben oddi ar yr isffordd sy'n mynd tua'r dwyrain o Landdewi Brefi, ar y lôn fynydd i gapel Soar y Mynydd. Mae'r trenau agosaf yn Llanwrtyd (16milltir) a'r bysiau agosaf yn Llanddewi Brefi (7milltir).



Dolgoch

Tregaron, Ceredigion, SY25 6NR
Ffôn: 01974 298680
Cyfeirnod Grid OS: SN 806 562
Yn cael ei oleuo gan oleuadau nwy (dim trydan)

21 lle mewn **3** ystafell, a'r rhan fwyaf yn welyau bwnc

Mae'n sefyll wrth afon dawel Tywi ar lôn oddi ar y ffordd rhwng Tregaron ac Abergwesyn. Mae'r trenau agosaf yn Llanwrtyd (11 milltir) a'r bysiau agosaf yn Nhregaron (10 milltir).

Beth sydd i'w wneud

Dewch i'r ardal hon i fwynhau digonedd o weithgareddau awyr agored, gyda theithiau cerdded, beicio a marchogaeth yn dechrau wrth ddrws yr hosteli. Mae hostel Ty'n Cornel ar lwybr cerdded pellter mawr Ffordd Cambrian ac mae'r rhan oddi-ar-ffordd ganolog o lwybr beiciau Lôn Las Cymru yn mynd heibio i hostel Dolgoch.

Os hoffech weithgareddau llai egnïol, beth am wylio adar, neu syllu ar y sêr gan nad oes golau i lygru'r nos yn yr Elenydd? Gyda'r nos, ymlaciwch wrth y tân gan rannu profiadau'r dydd gyda'r hostelwyr eraill, neu ymdawelwch wrth fwynhau'r awyrgylch arbennig.

Yn ogystal â gweithgareddau awyr agored yr ardal, mae'r atyniadau eraill yn cynnwys arfordir Bae Ceredigion, trefi a phentrefi cyfagos megis Aberystwyth a Thregaron, adfeilion abaty Ystrad Fflur, stad Llanerchaeron sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a pheth wmbredd o hanes mwyngloddio, gwarchodfeydd natur, a chronfeydd dŵr Llyn Brianne, Llynnoedd Teifi, a Chwm Elan.



Cyfeiriadau manwl ar y wefan

www.elenydd-hostels.co.uk

Roedd y ddau hostel yn arfer bod yn ffermdai ac maent yn sefyll yn anghysbell yn ardal fynyddig Canolbarth Cymru. Maent yn rhoi llety hunanarlwyol glân a chyfforddus.

- Ar agor trwy gydol y flwyddyn
- Gwresogir gan danau agored (darperir tanwydd)
- Cawod poeth
- Cegin gyflawn
- Mynediad trwy'r dydd
- Darperir dillad gwely
- Lle i barcio ceir ac i gadw beiciau
- Warden preswyl mis Mawrth i Dachwedd
- Prisiau arbenneg i fwcio'r holl le dros y Nadolig a'r Calan
- £10 yr un y noson, £7.50 dan 18 oed
- Lle gwersyllu i 4 - 5 pabell fach, gan dalu £5 y person

Bwcio

Mae'n well bwcio bob adeg ac yn angenrheidiol rhwng Tachwedd a Mawrth. Ffoniwch swyddfa bwcio ganolog y YHA ar:

01629 592708 neu **0870 7708868**.

Bwcio ar-lein: **www.yha.org.uk**